# BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

17 Ebrill 2023, 2.00pm

Wyneb yn Wyneb Ystafell Bwrdd, Adeilad Ystwyth a Thrwy Teams

## **Yn bresennol**:

Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Wyneb yn wyneb
Y Cynghorydd Alun Williams, (CyngAW), Cyngor Sir Ceredigion - Rhithwir
Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Cadeirydd) - Wyneb yn wyneb
Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Rhithwir
Y Cynghorydd Tessa Hodgson (CyngTH), Cyngor Sir Penfro - Wyneb yn wyneb
Hazel Lloyd-Lubran (HLL), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (Is-gadeirydd) - Rhithwir
Michael Gray (MG), Cyngor Sir Penfro - Rhithwir
Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Wyneb yn wyneb
Gareth Morgans (GM), Cyngor Sir Caerfyrddin - Rhithwir
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru - Wyneb yn wyneb
Y Cynghorydd Jane Tremlett (CyngJT), Cyngor Sir Caerfyrddin - Wyneb yn wyneb
James Tyler (JT), Pobl yn Gyntaf Sir Benfro - Wyneb yn wyneb
Jen Green (JG), Pobl yn Gyntaf Sir Benfro - Wyneb yn wyneb
Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion - Rhithwir
Chris Harrison (CH), Cynrychioli Cyngor Sir Caerfyrddin - Rhithwir

Hefyd yn bresennol:

Kelvin Barlow (KB), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru - Wyneb yn wyneb
Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru - Wyneb yn wyneb
Michael McClymont (MM), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (cymryd cofnodion) - Wyneb yn wyneb
Eldeg Rosser (ER), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Wyneb yn wyneb
Sarah Bolton (SB), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru - Wyneb yn wyneb

**Ymddiheuriadau**
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Audrey Somerton-Edwards (ASE), Cyngor Sir Ceredigion
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Steve Moore (SM), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Malcolm Perrett (MP), Fforwm Gofal Cymru

Croesawodd JH y rhai a oedd yn bresennol a'r rhai a oedd yn bresennol ar ffurf rhithwir. Nodwyd yr ymddiheuriadau. Gofynnodd JH i SM gael ei dynnu oddi ar y rhestr ddosbarthu.

## 1. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023

Gofynnodd JH a oedd angen cywiro unrhyw beth yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf. Penderfynwyd derbyn bod y cofnodion yn gywir.

Darparodd KB ddiweddariad ar eitemau heb eu cwblhau ar gofnod y camau gweithredu. Y cyntaf oedd y maniffesto diweddaraf i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Dywedodd fod y Cylch Gorchwyl ar yr agenda heddiw i'w gymeradwyo. Hefyd, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno hunanasesiad yn ddiweddar ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac mae'n comisiynu rhywfaint o waith hwyluso at y diben hwn. Byddai'n synhwyrol felly aros am y gwaith hwn cyn diweddaru ein maniffesto a'n cytundebau.

Yr eitem nesaf ar y cofnod o'r camau gweithredu oedd y gwaith Pellach a Chyflymach, a bydd cynnig manylach ar ei gyfer yn cael ei gyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn yr wythnosau nesaf drwy'r IEG. Ychwanegodd JP, yn dilyn trafodaeth gydag arweinwyr Llywodraeth Cymru ar y gwaith Pellach a Chyflymach, nid creu rhaglen newydd yw'r bwriad, ond mater i ni yw edrych ar sut i gydgysylltu ein gwaith a chreu fframwaith a fydd yn cynnwys egwyddorion cyffredin a fydd yn cael eu darparu drwy raglenni lleol. Mae hi'n credu bod cynnydd da wedi'i wneud drwy'r trafodaethau sydd wedi'u cynnal a bod angen gweithio ar fanylion yn y cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu i gynnal y sgyrsiau hynny ar lefel leol.

## 2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyfalaf y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Roedd KN yn gobeithio bod pawb wedi gweld y papur a ddosbarthwyd gyda'r agenda. Yn ei diweddariad, nododd fod drafftiau cyntaf y Cynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd (SCP) a'r cynllun ardal strategol 5 mlynedd i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ebrill 2023.

Nododd KN y bydd amlinelliad drafft yn cael ei gyflwyno yn y trydydd gweithdy cyfalaf a gynhelir ar 26 Mai 2023. Gofynnodd KN i'r bwrdd nodi'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd a wnaed hyd yma i ddatblygu'r swyddfa gyfalaf.

Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyn ei gyflwyno'n derfynol i Lywodraeth Cymru. Soniodd KN hefyd y bydd cyfres o gynlluniau cyfalaf yn cael eu datblygu yn seiliedig ar y blaenoriaethau a'r bylchau a nodwyd, pan fydd y Cynllun Rheoli Strategol wedi'i gwblhau. Gofynnodd KN hefyd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gymeradwyo cynigion ar gyfer cyllid yr IRCF ar gyfer

Canolfannau Hwb Abergwaun a Chaerfyrddin y byddai ER yn rhoi cyflwyniad arnynt yn fuan.

Nododd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y dyraniadau cyllid cyfalaf a'r cynnydd a wnaed i ddatblygu cynllun cyfalaf strategol swyddfeydd cyfalaf.

## 3. Cyflwyniad gan Ganolfannau Hwb Abergwaun/Caerfyrddin

Cyflwynodd ER, Cadeirydd y Grŵp Gweithredu Cyfalaf fanylion am y cynlluniau a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cerrig milltir allweddol yn y cynlluniau, a'r camau nesaf sydd angen eu cymryd.

Esboniodd fod y ceisiadau wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gan y grŵp Cyfalaf Rhanbarthol a'i bod heddiw'n gofyn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gymeradwyo argymhellion yr IEG i gyflwyno'r ceisiadau i Lywodraeth Cymru i'w hystyried gan Fwrdd yr IRCF.

Dywedodd JH ei bod wedi mynychu'r digwyddiad yn Abergwaun, a dywedodd fod nifer dda yn bresennol, a bod llawer wedi rhoi syniadau trawiadol o ran beth y dylid ei gynnwys yn y cynnig. Atebodd gwestiynau gan aelodau'r bwrdd.

Cwestiynodd JT beth oedd yn ymddangos fel camgymeriad yn yr amser roedd yn ei gymryd i fynd rhwng ychydig o leoliadau yn y ddogfen. Hefyd, mynegodd bryderon am drigolion Sanclêr neu Hendy-gwyn ar Daf yn cyrchu gwasanaethau yn Abergwaun.

Cadarnhaodd ER fod gwall o safbwynt cyfrifo oriau ac y byddai'n diwygio'r ddogfen yn unol â hynny. Eglurwyd bod dechrau'r prosiect yn Abergwaun yn rhan o'r strategaeth ehangach ac mai un o elfennau allweddol y cynllun cyfalaf strategol yw canfod ble mae'r bylchau yn narpariaeth gwasanaethau. Byddan nhw'n datblygu'r prosiectau sydd yn yr arfaeth, a fyddai'n cael eu rhoi ar waith wrth iddynt symud ymlaen i sicrhau bod y materion hynny sy'n ymwneud â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u Cymuned eu hunain yn cael sylw drwy'r cynllun hirdymor cynllunio cyfalaf. Mae cael y map ffisegol hwnnw yn fan cychwyn. Ar y map bydd rhestr hir o ardaloedd yr edrychir arnynt i'w datblygu. Bydd yr holl feysydd eraill yn cael eu datblygu fesul cam.

Pwysleisiodd AW bwysigrwydd y map. Dywedodd fod datblygiad Abergwaun yn swnio'n dda iawn gan mai dyma'r peth agosaf i Ganolfan Gofal Integredig Aberteifi. Dywedodd y byddai'n ddiddorol gweld map o'r rhwydwaith arfaethedig. Dywedodd ER fod fersiwn drafft ar gael, ac wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu bydd lleoliadau eraill yn cael eu hychwanegu.

Gofynnodd JH i'r bwrdd gymeradwyo'r cynnig i wneud cais am gynnydd y cyllid i'r cam nesaf. Cytunwyd y dylid gwneud hynny.

Diolchodd i KN a ER am y cyflwyniadau a soniodd am bwynt JT ynghylch bod angen rhywbeth mwy diffiniol i allu edrych arno fel y map. Argymhellodd y dylid dod â'r agenda cyfalaf yn ôl i'r bwrdd ymhen ychydig fisoedd ar ôl yr haf i gael diweddariad.

## 4. Cynllun Gweithredu NYTH Gorllewin Cymru

Darparodd SB rywfaint o gefndir i Fframwaith NYTH, sef gofyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun gweithredu a chomisiynu Alder Advice i gwblhau'r gwaith o ddrafftio cynllun. Amlinellodd yr hyn a fyddai'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun a siaradodd am y gweithgor a'r camau nesaf i'w cymryd. Dywedodd SB fod angen i'r gweithgor edrych ar y camau gweithredu a chytuno ar amserlenni, fel bod cynllun clir ar gyfer y 12 i 18 mis nesaf. Dywedodd hefyd fod angen darparu adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn mis Hydref eleni. Gofynnodd SB i'r bwrdd gytuno i weithredu'r cynllun.

Dywedodd JH fod ganddi broblem gyda chynllun gweithredu sydd heb ddyddiadau na chyfrifoldebau arweiniol. Nid oedd problem ganddi â'r camau gweithredu a amlinellwyd yn yr adroddiad ond mae o'r farn nad yw'n rhywbeth y gellid cytuno arno mewn egwyddor. Roedd o'r farn fod angen amserlen o bwy fydd yn gyfrifol am y gwahanol gamau gweithredu, oherwydd ni all SB wneud y cyfan.

Dywedodd SB ei fod yn mynychu'r Bwrdd Plant Rhanbarthol ddydd Mercher a bod MG, sy'n cadeirio'r cyfarfod, yn cael ei enwi'n uwch-swyddog cyfrifol (SRO). Cytunir pa gamau y gellir mynd i'r afael â hwy yn gyflym a pha rai fydd yn cymryd mwy o amser cyn gosod amserlenni realistig iddynt.

Roedd DP yn cytuno â'r hyn a ddywedodd JH. Dywedodd fod llawer o wybodaeth ddefnyddiol yn y ddogfen a'i bod yn ddefnyddiol cael y trosolwg hwnnw, ond nid yw'n darllen fel cynllun gweithredu. Dywedodd ei fod yn darllen yn debycach i drosolwg strategol a'i bod yn credu bod angen inni weld mwy o fanylion am y camau gweithredu, pwy sy'n arwain arnynt a rhai amserlenni ar gyfer cyflawni'r camau hynny, cyn y gallwn gadarnhau hynny. Gofynnodd CyngJT a oedd yn bosibl cwblhau amserlen cyn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd AB fod sôn am CAHMS drwy gydol y ddogfen, ond roedd hi eisiau pwysleisio mai adran neu gyfarwyddiaeth o fewn y Bwrdd Iechyd ydyw. Nid yw'n sefydliad ar wahân, ond mae'n ddefnyddiol gweld bod rhai rhannau o'r system iechyd wedi'u crybwyll.

Awgrymwyd y dylid mynd â'r ddogfen i'n byrddau diogelu i'w hystyried ac y gallai hynny helpu i gael y mewnbwn ehangach hwnnw i'r broses.

Crynhodd JH drwy ddweud eu bod yn fodlon gweld y camau gweithredu, ac mae'r bwrdd yn gefnogol i hyn fynd i'r Bwrdd Plant Rhanbarthol i ddatblygu cynllun manwl a fydd yn nodi pwy fydd yn cwblhau'r camau gweithredu, gyda'r amserlen berthnasol.

Aeth ymlaen i ddweud mai disgwyliad y corff hwn, sy’n cynrychioli ein holl bartneriaid strategol, yw y bydd pobl yn cymryd cyfrifoldeb arweiniol am wahanol feysydd o’r gwaith hwn ac y bydd cyfarwyddwyr o’r sefydliadau yn mynd â’r neges honno yn ôl ac yn rhoi rhywfaint o gefnogaeth i SB ynghylch hyn.

## 5. Cylch Gorchwyl 2023-24

Dywedodd KB fod y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiweddaru o’r cylch gorchwyl presennol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a oedd yn ddyddiedig Gorffennaf 2021, sef y tro diwethaf i’r Bwrdd Partneriaeth gytuno arnynt yn ffurfiol.

Mae KB yn ceisio cytundeb heddiw ar y ddogfen ddrafft. Mae'n ymwybodol y gallai fod rhai manylion y bydd angen eu cywiro a gofynnodd i'r aelodau roi gwybod iddo beth ydynt.

Dywedodd fod rhai swyddi gwag ar y bwrdd, gan gynnwys: Cynrychiolydd Gofalwyr a Chynrychiolydd Cenedlaethol Trydydd Sector. Dywedodd ein bod wedi dechrau'r broses o recriwtio ar gyfer y swyddi hynny y llynedd a'r hyn a benderfynodd, er bod gennym enwebiadau da, oedd nad oedd gennym y modd i gefnogi pobl yn ddigonol ac i fod yn rhan o hyn.

Dywedodd ei bod yn dda gweld JT yn bresennol yn y cyfarfod heddiw, ond mae'n teimlo bod angen i ni feddwl hefyd sut y gallwn sicrhau bod y cyfarfodydd hyn yn hygyrch o ran cael papurau i bobl mewn pryd a chefnogi unigolion i gymryd rhan yn briodol. Gofynnodd a fyddai’r bwrdd yn barod i gytuno ar hyn yn amodol ar adolygiad o’r pethau y mae newydd eu crybwyll.

Cafodd ei gynnig a'i dderbyn, a dywedodd JH fod y bwrdd yn hapus i gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl gyda'r adolygiad ymhen chwe mis.

Nododd CT y bu problemau gyda hygyrchedd mewn cyfarfodydd gyrfaoedd, lle na allai aelodau glywed, neu le na allai unigolion ddefnyddio Microsoft Teams oherwydd y ffordd yr oedd pethau'n symud ar draws y sgrin. Mae hi'n credu bod angen i ni edrych ar ddull mwy creadigol o ran sut y gallwn ni sicrhau bod systemau'n gweithio'n gywir. Dywedodd hefyd fod y cyfarfod hwn heddiw wedi'n gweithio'n dda iawn. Hwn oedd y tro cyntaf iddi weld trefniant hybrid yn gweithio'n iawn.

## 6. Diweddariad Buddsoddi’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol 2023-24

Rhannodd KB ei sleidiau a rhoddodd drosolwg ar waith y Gronfa yn 2022/23. Siaradodd am yr amser a dreuliwyd yn gwerthuso'r prosiectau a'r rhaglenni a'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd ledled y rhanbarth.

Wrth dynnu sylw at y materion allweddol a ddaeth i’r amlwg, un ohonynt oedd rheoli’r heriau cynllunio rhanbarthol yn erbyn sirol, a chredai inni ddysgu llawer amdanynt

eleni ac rydym wedi awgrymu rhai gwelliannau ynghylch trefniant gwahanol ar gyfer y dyfodol.

Siaradodd am y diffyg fframwaith perfformiad cyson ar draws ein rhaglenni a sut nad oedd hyn yn helpu. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r fframwaith perfformiad ond ni chyrhaeddodd hynny tan ymhell i mewn i'r flwyddyn ariannol. O ganlyniad, roeddem yn ceisio mesur effaith prosiectau a rhaglenni ac roeddem yn dibynnu ar wybodaeth bresennol yr oedd pobl yn ei chasglu yn ogystal â'n trefniadau lleol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn agos at gyflwyno fframwaith newydd y maent wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a fydd yn caniatáu inni fesur ar lefel prosiect neu raglen, yn ogystal ag edrych ar lefel y boblogaeth a'r gwahaniaeth y mae'r cyllid yn ei wneud ledled y rhanbarth.

Siaradodd KB am newid i'r cyllid eleni. Dywedodd fod y dyraniad wedi aros yr un fath ac nad ydym wedi cael unrhyw gynnydd chwyddiannol, ond mae llinell newydd ar gyfer Seibiannau Byr i Ofalwyr o £163,000, sef dyraniad newydd sy'n cael ei ddiogelu.

Trafodwyd cynnig drafft yn IEG a chytunwyd arno, yn amodol ar gwblhau rhai manylion.

Pwysleisiodd na ellid ystyried gor-ymrwymiadau. Mae'n gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau y gallwn gael rheolau clir iawn ynghylch dirprwyo pan ddaw'n fater o ddirprwyo'r cyllidebau hynny. Yn achos risgiau o unrhyw or-ymrwymiad, dywedodd y byddem yn disgwyl y byddai cynlluniau cadarn yn eu lle i ddangos sut yr eir i'r afael â'r rheini yn ystod y flwyddyn. Byddai cyfarfod grŵp perfformiad a chyllid bob pythefnos yn amlygu unrhyw faterion sy'n codi wrth adrodd.

Soniodd EH am effaith ac mae'n meddwl y byddai'n werth i ni fel bwrdd edrych ar rai o effeithiau'r buddsoddiadau rydym yn eu gwneud yn rheolaidd iawn, o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau / poblogaeth a hefyd o safbwynt y rheiny sy'n gweithio mewn prosiectau ac sydd naill ai'n eu rheoli neu'n gweithio i'w cyflawni, oherwydd mae hi'n meddwl mai dyna sy'n dod ag ef yn fyw i ni a bydd yn ein helpu i adrodd y stori honno yn ôl i Lywodraeth Cymru, gan ei bod yn bosibl y bydd y Gweinidog yn gofyn, ar ryw adeg, pa werth y mae hi yn ei chael am yr arian a fuddsoddwyd. Roedd hi'n meddwl tybed, wrth i ni fynd drwy'r flwyddyn, y gellid gwneud hynny trwy fideos neu gyflwyniadau neu unrhyw fodd arall i ddangos yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r budd cadarnhaol y mae'n ei wneud. Ychwanegodd JH ei fod yn bwynt da iawn.

O ran y cyfarfod nesaf, gofynnwyd ein bod yn treulio peth amser gyda'n gilydd yn edrych ar y cynllun cyfalaf, a'r cynllun ardal yr ydym wedi bod yn ei ddrafftio ar gyfer Llywodraeth Cymru.

## 7. Unrhyw Fater Arall

Dywedodd JH nad oedd rhagor o faterion i'w trafod. Dywedodd ei bod yn braf cael rhai unigolion yn yr un ystafell a'i bod yn braf gweld yr aelodau ar y sgrin hefyd.

Diolchodd i bawb am eu presenoldeb ac roedd yn edrych ymlaen at y cyfarfod fis nesaf.

## 8. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

15 Mai 2023 – Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru